Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llansawel**

**Neuadd Llansawel Hall**
**Llansawel**
**Caerfyrddin**
**SA19 7JH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llansawel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Llansawel |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn hapus ac wedi setlo. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n dda er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a chadarnhaol er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd diogel, glân a chartrefol. Mae'r amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol i oedran y plant. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau i'r plant wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli ac yn gweithredu'r gwasanaeth yn eithriadol o dda, ac maent yn ymrwymedig i barhau i'w wella. Mae ganddynt weledigaeth arloesol ar gyfer y lleoliad, ac maent yn rhannu'r weledigaeth honno â'r rhieni a'r staff gofal. Maent yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, wrth adael y bwrdd ar ôl amser byrbryd, gofynnodd y plant am gerddoriaeth iddynt ganu a dawnsio â hi. Gwrandawyd arnynt ac roedd y rhan fwyaf o'r plant wrth eu bodd yn ymuno â'r gân y gwnaethant ei dewis, sef '*fi'n beilo nawr'*.

Mae'r plant wedi setlo, ac maent yn gyfforddus ac yn hapus yn eu hamgylchedd. Maent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr ac mae sesiynau blasu a gaiff eu cynllunio'n ofalus yn arwain at drefn ddyddiol gyson sy'n diwallu anghenion unigol. Clywsom un plentyn yn gofyn pryd roedd hi'n amser mynd adref a chymerodd y staff gofal amser i esbonio beth oedd yn digwydd nesaf ac yna parhaodd y plentyn i chwarae'n hapus.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r oedolion ac yn cyd-dynnu ac yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion, gan ddangos diddordeb yn anghenion ei gilydd a'u cefnogi. Gwelsom y plant yn dangos sensitifrwydd i eraill. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi dechrau crïo yn ystod gweithgaredd dawnsio digymell a rhoddodd rhai o'r plant eraill y gorau i ddawnsio'n gyflym er mwyn ei gysuro.

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan weithgar yn nhrefn y diwrnod ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad wrth chwarae a dysgu. Gwelsom y plant yn eistedd gyda'i gilydd yn llawn cyffro er mwyn trafod tasg i greu Guto Ffowc. Gwnaethant ymateb gan fynegi eu syniadau a gwnaethant neidio ar eu traed er mwyn mynd ar ôl beth oedd ei angen, er enghraifft, casglu gwellt o'r ardal gysgodol y tu allan. Mae'n amlwg bod gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau â'u cyfoedion a'r staff ac maent yn gyfforddus i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r diwrnod. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn sesiynau Dewin a Doti, gan ganu caneuon actol a dangos brwdfrydedd a mwynhad. Mae'r plant yn cychwyn eu chwarae eu hunain gan fod adnoddau'n cael eu cadw o fewn cyrraedd ar eu lefel nhw. Maent yn mwynhau cyfleoedd dan do ac awyr agored a gallant ddewis ac archwilio'r ddau amgylchedd yn ddiogel.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, y tu allan, symudodd y plant o gegin fwd lle gwnaethant lenwi cynwysyddion â dŵr a'u gwagio, i hambwrdd twff ag adnoddau i'w didoli. Dewisodd rhai o'r plant eraill fynd ar amrywiaeth o dreiciau a sgwteri. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth a'u sgiliau datrys problemau. Gwelwyd enghraifft o hyn pan ddiffoddwyd y golau a llwyddodd y plant i ddarganfod sut i greu cysgodion gan ddefnyddio tortshis, *'Look, this is my monster shadow.'* Mae'r plant yn mynd i'r toiled ac yn golchi eu dwylo ar eu pen eu hunain. Mae

gorsaf ddŵr yn y brif ystafell hefyd yn galluogi'r plant i fynd ar ôl eu poteli dŵr eu hunain ar unrhyw adeg.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn nodi ac yn rheoli risgiau yn weithredol ac maent yn ymateb i'r plant yn gyson. Er bod ieithoedd cartref yn cael eu parchu a'u hyrwyddo, roedd rhai aelodau o'r staff yn llai hyderus yn defnyddio'r Gymraeg. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau amddiffyn plant. Mae'r staff yn dilyn arferion glanhau a hylendid cadarn, er enghraifft, drwy wisgo ffedogau a menig yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Er bod cewynnau'n cael eu newid yn y lleoliad, nid oedd unrhyw blentyn yn gwisgo cewyn ar ddiwrnod ein hymweliad. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer newid cewynnau yn cael eu harddangos yn glir ac mae cofnodion manwl yn cael eu cadw pan fo angen newid cewynnau. Mae cyfleusterau newid cewynnau priodol ar gael.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant ac maent yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion unigol. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant ac maent yn fodelau rôl da.

Mae gan bron pob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i oedran y plant. Gwelsom dystiolaeth glir o arsylwadau gofalus yn ffeiliau unigol y plant, lle roedd gweithwyr allweddol yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn darparu amgylchedd diogel sydd mewn cyflwr da iawn, y tu mewn a'r tu allan. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn gynnes ac yn gartrefol ac mae arferion hylendid clir ar waith. Mae'r lleoliad mewn cyflwr da gyda systemau gwresogi ac awyru da. Mae mynedfeydd ac allanfeydd clir yn ogystal â llwybrau dianc rhag tân a mannau cyfarfod clir. Mae tystiolaeth ddogfennol a ffotograffig i'w gweld yn y brif dderbynfa, sy'n dangos gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau lefel uchel o ofal. Mae arferion rheoli heintiau da iawn ar waith, sy'n lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf, a chaiff y rhain eu harddangos a'u rhannu â'r rhieni. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg trylwyr ac effeithiol mewn perthynas â gweithgareddau ac ardaloedd, ac mae taflen asesu risg wythnosol i'w gweld ar wal y lleoliad, sy'n cael ei llenwi bob dydd. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser ac mae'r ymarferwyr yn deall lefelau risg ac yn gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae gan y lleoliad gegin llawn adnoddau sydd ar wahân i'r ardal chwarae ac sy'n cynnig bwydlen faethlon. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do o safon dda iawn er mwyn i'r plant symud o gwmpas a dewis gweithgareddau yn rhydd. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Er gwaethaf tywydd gwael ar ddiwrnod yr ymweliad, treuliodd y plant amser y tu allan yn ystod sesiwn chwarae'r bore ac fel rhan o dasg y bore. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n ysgogi chwilfrydedd a diddordeb y plant. Mae ardal gysgu bwrpasol hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r plant orffwys neu gysgu, ac mae bleinds, blancedi a cherddoriaeth yn helpu'r plant i ymlacio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi addasu'r amgylchedd dan do er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau a ddarperir i'r plant o safon uchel. Y tu allan, mae mwy o gynlluniau ar waith i wella a datblygu'r ardal awyr agored fach, fel trawsnewid y tŷ bach twt yn ardal synhwyraidd newydd. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym eu bod yn defnyddio grantiau er mwyn rhoi mwy o brofiadau awyr agored i'r plant, fel thema gwlyb a gwyllt ddiweddar.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol a gaiff ei rhannu'n effeithiol ag eraill. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol a chynhwysfawr, sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau sy'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau ac yn sicrhau bob amser fod gofynion yn cael eu bodloni, gan gofnodi hyn mewn ffordd drefnus a chyfrinachol. Maent yn wybodus ac yn gyfrifol ac maent yn sicrhau bod unrhyw newidiadau adolygu sy'n cael eu gwneud i bolisïau neu weithdrefnau yn cael eu rhannu â'r staff a'r rhieni, ac yn cael eu rhoi ar waith. Un enghraifft o hyn yw'r fwydlen a gynllunnir sy'n sicrhau bod alergeddau unigol yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae newidiadau cyfredol i gyfreithiau yn cael eu harddangos yn y brif dderbynfa hefyd. Er enghraifft, y gyfraith newydd i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Mae'r gwaith papur i gyd yn rhagorol. Caiff tystysgrifau diogelwch eu harddangos, ac mae ymarferion a chyfarpar tân ar waith ac yn gywir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn ddiweddar, ar ôl casglu barn yr ymarferwyr, y plant a'r rhieni. Mae holl nodau'r adroddiad diwethaf wedi cael eu cyflawni sy'n dangos ymrwymiad yr arweinwyr i wella'n barhaus.

Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym fod hyfforddiant staff yn hollbwysig ac yn allweddol i dîm llwyddiannus. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ac yn datblygu o safbwynt proffesiynol. Mae cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau newydd wedi cael eu cyflwyno ac mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn dangos tystiolaeth o agendâu a phresenoldeb. Mae arfarniadau, sesiynau goruchwylio a thargedau staff ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu partneriaethau ardderchog â'r gymuned leol ac yn cymryd rhan mewn sawl agwedd ar weithgareddau codi arian sy'n cynnwys y rhieni a theuluoedd, fel noson pizza. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad a'u bod yn cael eu cefnogi'n llawn gan yr arweinwyr a'r staff. Dywedodd rhai wrthym eu bod yn teithio cryn bellter er mwyn cael gofal o ansawdd uchel ac na allent ganmol y lleoliad, yr arweinwyr na'r staff digon.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Staff i fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ymhellach drwy gydol y dydd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Nid yw pob ffeil staff yn cynnwys y dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 15 (1) (c) | Nid yw'r Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/01/2023